COFNODION O GYFARFOD CYNGOR TREF BAE COLWYN A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DREF, FFORDD RHIW, BAE COLWYN, NOS LUN, 23AIN IONAWR 2017 AM 6.30 P.M.

YN BRESENNOL: Maer y Dref, Y Cynghorydd J. Davies (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr W Bagnall, Mrs G Baker; Mrs L Edwards; D Griffiths, Mrs L Griffiths; C. Hughes, Mrs M Jones; Mrs H Meredith; J Pearson; Mrs V Perry; P Richards, Dr S Roy; Mrs V Smith Y.H., S Taylor; S Williams.

SWYDDOG: Mrs C. J. Earley, Clerc y Dref

HEFYD YN BRESENNOL: Rachael Gill a Millie Gilbert, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC)

317/16 Ymddiheuriadau am Absenoldeb:

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr R. Foreman; A Khan; A Mason ag A Pearson;.

318/16 Cyhoeddiadau:

Cyhoeddodd y Maer y derbyniwyd llythyr ymddiswyddo oddi wrth y Cynghorydd Chip Wood, am resymau personol (teulu) o 16eg Ionawr.

Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolch a dymuniadau gorau i Chip ar ran y Cyngor.

319/16 Datgan Cysylltiadau:

Atgoffwyd yr aelodau o'r angen iddynt ddatgan unrhyw gysylltiad personol a / neu gysylltiad sy'n rhagfarnu, a natur y fath gysylltiadau. Ni ddatganwyd dim.

320/16 Ymwelwyr â'r Cyngor:

Croesawyd Rachael Gill a Millie Gilbert, CBSC yn ffurfiol i'r cyfarfod gan y Maer er mwyn iddynt roi adborth am ddigwyddiadau 2016 a rhagolwg o'r cynlluniau ar gyfer digwyddiadau 2017.

Dechreuodd Rachael, Pennaeth Cyfathrebu a Marchnata efo CBSC, trwy ddiolch i'r Cyngor Tref unwaith eto am y cefnogaeth ariannol barhaus i ddigwyddiadau lleol, er y feirniadaeth a dderbyniwyd gan GBSC o rai cylchoedd. Ailadroddodd Rachael pwysigrwydd yr effaith o gael ddigwyddiadau o bwys i hybu'r Sir yn gyfan gwbl fel man deniadol a byrlymus i ymwelwyr a sgil effeithiau hyn ar fusnesau lleol. Cyfeiriodd yn benodol at y gêm rygbi pwysig a gynhaliwyd yr wythnos flaenorol a'r cynnydd yn y nifer o ymwelwyr sy'n troedio canol y dref pan gynhelir digwyddiadau o'r fath yn y Parc. Dangoswyd nifer o ddelweddau a rhoddwyd adroddiad ar lafar am bob un o'r prif ddigwyddiadau a gynhaliwyd eleni yn cynnwys Prom Xtra, Criced Sir Forgannwg, Lionel Richie, Proms yn y Parc a Rali Ceir Cymru (GB). Cyflwynwyd ystadegau am nifer o'r digwyddiadau hyn, oedd yn dangos graddfa da iawn o adennill ar y buddsoddiad (e.e. £4.50

am bob £1 a wariwyd ar Lionel Richie a 3 miliwn yn gwylio Proms yn y Parc).

Dangoswyd fideo byr o'r digwyddiad Nadoligaidd yng nghanol y dref a ddenodd nifer fawr o bobl unwaith eto. Gofynnwyd i fusnesau lleol am y buddiannau o gael digwyddiadau o bwys yn y Parc yn dilyn cyngerdd Lionel Richie ac roedd yr ymateb 100% yn dweud y dylai i GBSC parhau i gefnogi / annog y rhain.

Yna aeth Rachael ymlaen i son am y digwyddiadau a gynlluniwyd ar gyfer 2017, gan gyfeirio at y ffaith bod yr holl docynnau ar gyfer Bryan Adams a Little Mix wedi cael eu gwerthu. Cyflwynwyd achos busnes i GBSC am gefnogaeth barhaol i ddigwyddiadau am y blynyddoedd sydd i ddod ac fe gadarnhawyd hefyd y byddant yn ceisio cefnogaeth barhaol y Cyngor Tref.

Dilynwyd y cyflwyniad gyda sesiwn o holi ag ateb, gyda sylwadau / cwestiynau yn ymwneud a'r canlynol: llwyddiant digwyddiadau llai / costau llai megis digwyddiad Nadoligaidd Rhos a digwyddiad Uke-a-Bay a gynhaliwyd haf diwethaf (cadarnhaodd RG y gallai tîm digwyddiadau CBSC helpu i hybu'r math yma o ddigwyddiad trwy eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol); pryderon am dagfeydd traffig ar adeg Prom Xtra eleni oherwydd y gwaith oedd yn mynd ymlaen ar lan y môr (mae CBSC yn edrych i gael gwell cysylltedd rhwng y dref a'r Prom, yn cynnwys trên tir neu siarabáng, ac yn bwriadu siarad gyda masnachwyr); y posibilrwydd o hedfan mewn hofrennydd / balŵn; cyfleoedd i fasnachwyr lleol cael denu masnach ychwanegol ar y diwrnod; y posibilrwydd o gael digwyddiadau eraill ar y traeth e.e. gŵyl barcud; y posibilrwydd o gynnal digwyddiad y Pedwardegau ar yr un penwythnos a 'Prom Xtra' (heb ei gynllunio) a'r cyfleoedd byddai hyn yn rhoi i wella cysylltedd.

Daeth Rachael a'i chyflwyniad i ben trwy gyfeirio at y posibilrwydd o ddenu digwyddiadau eraill o bwys i Barc Eirias eleni, a fyddai, efallai angen cefnogaeth gan y Cyngor Tref. Diolchwyd i Rachael a Millie am fod yn bresennol ac am y gwaith a wnaed gan y Tîm Digwyddiadau trwy'r flwyddyn ac yna gadawsant y cyfarfod.

321/16 <u>Cofnodion:</u>

a. ***Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cywirdeb cofnodion cyfarfod diwethaf y Cyngor a gynhaliwyd ar 5^{ed} Rhagfyr 2016.***

b. ***Penderfynwyd <u>derbyn</u> copi o gofnodion y cyfarfodydd Pwyllgor canlynol:***

i. Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 13^{eg} Rhagfyr 2016.

ii Pwyllgor Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 4^{ydd} Ionawr 2017 (Drafft)

iii Pwyllgor Amcanion Cyffredinol a Chynllunio a gynhaliwyd ar 10^{fed} Ionawr 2017 (Drafft).

c **<u>Materion yn Codi o'r Cofnodion Hynny :</u>**

i Cofnod 214/16(a) - Cysylltiadau a'r Congo:

Cyflwynodd y Clerc, er gwybodaeth, gohebiaeth e-bost oddi wrth Norbert Mbu-Mputo, yn gofyn am lythyr o gefnogaeth. Gofynnwyd a ddylai'r Cyngor Tref cysylltu hefyd a Llysgenhadaeth Ghana i ofyn a fyddent yn ystyried talu i ailwampio bedd person ifanc o'r Traeth Aur blaenorol.

Penderfynwyd anfon llythyr cyffredinol o gefnogaeth i Norbert.

ii Cofnod 272/16(b) - Ymweliad a Chlwb Pêl-droed Bae Colwyn

Cyflwynodd y Clerc y rhaglen tymor a gofynnwyd i'r Aelodau dangos, trwy godi llaw, a fyddant â diddordeb i fynd i weld gêm gartref yn y dyfodol.

Penderfynwyd bod y Clerc i ddosbarthu manylion, trwy e-bost, at yr Aelodau hynny oedd wedi datgan diddordeb, er mwyn penderfynu pa gêm i fynd i weld ac ystyried sut i ddyrannu'r 8 lle.

ch. ***Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion canlynol:***

i. Cofnod 298/16(d) - Bonws Nadolig i'r Staff: Fe nodwyd bod y cynnig wedi cael ei dynnu'n ôl yn dilyn trafodaeth gyda'r staff.

ii Cofnod 300/16 - Uwchraddio TCC:

Penderfynwyd cytuno ar gyfraniad o £30,000 dros ddwy flynedd (£15,000 y flwyddyn) i uwchraddio holl gamerâu TCC yn ardal Bae Colwyn i fod yn ddigidol.

iii Cofnod 303/16(b) - Grantiau Bach:

Penderfynwyd cymeradwyo talu'r ddau grant bach fel y manylir arnynt yn Atodiad 'B' yn y Cofnodion.

iv Cofnod 307/16(a) - Gerddi'r Frenhines / Diwrnod y Gymanwlad:

Cafwyd adroddiad byr gan y Clerc ar argymhellion y Gweithgor i gynnwys ffurf arfaethedig y digwyddiad a rhestr o'r gwahoddedigion.

Penderfynwyd cadarnhau cynigion y Gweithgor a gadael i Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad yn Llundain wybod am y bwriad i gymryd rhan.

v. Cofnod 309/16(c) - Ailddatblygu Rhos Point:

Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth i'r cais a wnaed gan Grŵp Treftadaeth Bae Colwyn am fwy o amddiffyniad i'r hen Dŷ Tollau'r Pier yn ystod unrhyw waith i ailddatblygu'r safle.

vi. ***Penderfynwyd nodi holl benderfyniadau'r Pwyllgorau fel y maent yn ymddangos yn y Cofnodion.***

322/16 <u>Amcangyfrifon Blynyddol:</u>

a. Cyflwynodd y Clerc argymhelliad gan y Pwyllgor Polisi a Chyllid i gadw'r gyllideb o £35,000 tuag at Grantiau Mawr yn 2017/18, cymeradwyo cyfanswm grantiau o £27,570 a nodi bod dau gais wedi cael eu gohirio wrth ddisgwyl am wybodaeth fwy manwl.

Penderfynwyd cadarnhau argymhellion y Pwyllgor Polisi a Chyllid.

b. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried a chymeradwyo'r Amcangyfrifon Blynyddol ar gyfer 2017/18 a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Polisi a Chyllid.

Penderfynwyd cymeradwyo'r Amcangyfrifon Blynyddol ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad 'A' sydd gyda hwn.

c. Gofynnwyd i'r Aelodau nodi'r ddau opsiwn a drafodwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas â maint archebiant 2017/18 ac i ystyried yr argymhelliad a welir yng Nghofnod 299/16 o gyfarfod Polisi a Chyllid a gynhaliwyd ar 4ydd Ionawr, i gymeradwyo cadw'r archebiant o £37.00 am bob eiddo Band D (£413,650) fel y mae. Byddai hyn yn golygu defnyddio £62,150 o'r arian wrth gefn i fantioli'r gyllideb. Canlyniad hyn byddai rhagolwg o lefel arian wrth gefn cyffredinol o oddeutu £27,000 yn fwy na'r hyn a ganiateir gan bolisi'r Cyngor ar y lefel isaf angenrheidiol (25% o'r archebiant) i ymdrin ag unrhyw wariant na ragwelwyd yn ystod y flwyddyn.

Cynigiwyd ac fe eiliwyd bod y Cyngor yn ystyried codi'r archebiant ychydig i £419,250 (gyfartal a £37.50 am bob eiddo Band D) er mwyn helpu gyda'r gwariant ychwanegol o uwchraddio camerâu TCC yn y dref dros y ddwy flynedd nesaf ac i ysgafnhau effaith unrhyw gynnydd blwyddyn nesaf. Byddai hyn yn ychwanegu £5,600 at yr arian wrth gefn cyffredinol pe bae ei angen yn 2017/18, neu tuag at leihau'r diffyg a ragwelir yng nghyllideb 2018/19.

Penderfynwyd trwy fwyafrif o bleidleisiau i godi'r archebiant i £419,250 ar gyfer 2017/.18, sy'n gyfartal a £37.50 am bob eiddo Band D.

323/16 <u>Talu am Ddefnyddio Ystafelloedd:</u>

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a ddylid codi'r tal yn 2017/18.

Penderfynwyd peidio â chodi'r pris am ddefnyddio ystafelloedd o'r lefel presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.

324/16 <u>Amserlen Cyfarfodydd:</u>

Cyflwynodd y Clerc amserlen drafft cyfarfodydd blwyddyn ddinesig 2017/18 i'w ystyried (i'w gadarnhau yn y Cyfarfod Blynyddol ym Mai 2017).

Penderfynwyd derbyn a nodi'r amserlen cyfarfodydd drafft.

325/16 <u>Pier Victoria Colwyn:</u>

Rhoddodd y Clerc a'r Cynghorydd D. Griffiths adroddiad diweddariad byr ar lafar ar fwriad CVPT i ailddatblygu'r Pier a'r Pafiliwn. Adroddwyd bod cyfarfod wedi cael ei gynnal gyda swyddogion CBSC a CADW cyn y Nadolig pan ofynnwyd i'r Ymddiriedolaeth am amlinelliad o gynllun busnes / datganiad o weledigaeth mor fuan ag sy'n bosibl (gorau oll o fewn y mis nesaf). Mae'r gwaith yma yn mynd ymlaen ar hyn o bryd. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried cais gan yr Ymddiriedolaeth i ryddhau'r £15,000 a gymeradwywyd gan y Cyngor Tref tuag at y gost o £45,000 i gael cynllun busnes manwl (a gymeradwywyd yn Hydref 2015, yn amodol ar ariannu cyfatebol 100%) mewn rhandaliadau pan gyflwynir tystiolaeth y derbyniwyd arian cyfatebol o ffynhonnau eraill.

Cafwyd trafodaeth am y cais hwn, gyda'r aelodau yn rhoi barnau cymysg a ddylid gwneud hyn ai peidio neu a oedd hyn yn rhywbeth a ganiateir. Darllenodd y Clerc penderfyniad Hydref 2015 yn unol â chais yr Aelodau. Cytunodd yr Aelodau nad oedd hyn yn caniatáu talu rhandaliadau yn benodol ac felly byddai'n rhaid ei ailystyried a chytuno ar benderfyniad diwygiedig os oedd rhandaliadau i gael eu caniatáu rŵan. Bydd Rheol Sefydlog (Rhif 11) y Cyngor parthed y rheol chwe mis yn dod i rym a bydd angen cael rhybudd ysgrifenedig yn cynnwys enwau pedwar o'r Cynghorwyr, yn gofyn i'r mater ymddangos ar agenda nesaf y Cyngor, er mwyn i'r mater cael ei drafod ymhellach a gwneud penderfyniad ar y cais.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45 p.m.

.....Cadeirydd

MINUTES OF A MEETING OF THE BAY OF COLWYN TOWN COUNCIL, HELD IN THE COUNCIL CHAMBER, TOWN HALL, RHIW ROAD, COLWYN BAY, AT 6.30 P.M. ON MONDAY 23RD JANUARY 2017

PRESENT: The Mayor, Cllr J Davies (Chairman)
Cllrs: W Bagnall; Mrs G Baker; Mrs L Edwards; D Griffiths; Mrs L Griffiths; C Hughes; Mrs M Jones; Mrs H Meredith; J Pearson;
Mrs V Perry; P Richards; Dr S Roy; Mrs V Smith JP; S Taylor; S Williams

OFFICER: Mrs C Earley, Town Clerk

IN ATTENDANCE: Rachael Gill and Millie Gilbert, CCBC

90/11 Apologies for Absence:

Apologies for absence were received from Cllrs R Foreman, A Khan, A Mason and T Pearson.

91/11 Announcements:

The Mayor announced the receipt of a letter of resignation from Cllr Chip Wood with effect from 16th January, for personal (family) reasons.

Resolved to send a letter of thanks and best wishes to Chip, on behalf of the Council.

92/11 Declarations of Interest:

Members were reminded that they must declare the existence and nature of any personal and/or prejudicial interests. None were declared.

93/11 Visitor to the Council:

The Mayor formally welcomed Rachael Gill and Millie Gilbert, CCBC, to the meeting to give feedback on events for 2016 and preview plans for 2017 events.

Rachael, Head of Communications and Marketing at CCBC, began by thanking the Town Council once again for its on-going funding support for local events, despite the criticism received by CCBC from some quarters. She reiterated the importance that the major events have in promoting the whole county as an attractive and dynamic place for visitors and the knock-on affect of this on local business, referring specifically to the high profile rugby game the previous week and the increase in footfall in the town centre when major events are held in the park. A number of images were shown and a verbal report was given on each of the major vents that had taken place this year, including Prom Xtra, Glamorgan Cricket, Lionel Ritchie, Proms in the Park

and the Wales GB Rally. Statistics were given on several of these events, demonstrating a good level of return on investment (e.g. £4.50 for every £1 spent on Lionel Richie and 3 million viewers for the Proms in the Park event).

A short video clip was also shown of the Christmas event in the town centre, which had attracted large crowds once again. Local businesses were asked about the benefits of having large events in the park after the Lionel Richie concert and 100% had responded that CCBC should continue to support/encourage these.

Rachael then went on to talk about the events planned for 2017, referring to strong ticket sales for Bryan Adams and Little Mix now being sold out. A business case has been put in to CCBC for continued support for events for the next couple of year and confirmed they were also seeking on-going support from the Town Council.

A brief question and answer session followed the presentation, with comments/questions regarding the following: the success of smaller / lower cost events such as the Rhos Christmas event and the Uke-a-Bay event last summer (RG confirmed that the events team at CCBC could help with promotion of these type of events via their social media pages); concerns about traffic congestion for Prom Xtra this year, due to the on-going waterfront works (CCBC looking at connectivity with the town, including land train or charabancs, and intends to speak to traders); possibility of helicopter / hot air balloon rides; opportunity for local traders to make offers available to attract extra custom on the day; possibility of other beach events, e.g. kite festival; the possibility of the Forties event being the same weekend as Prom Xtra (not planned) and opportunities this may give to improve connectivity.

Rachael closed the presentation by referring to the possibility of other major events which could be attracted to Eirias this year, which may need Town Council support. Rachael and Millie were then thanked for attending and for the work done by the CCBC events team throughout the year and they then retired from the meeting.

94/11 <u>Minutes</u>:

a) Resolved to approve and sign as a correct record the minutes of the last meeting of the Council, held on 5th December 2016.

b) Resolved to <u>receive</u> a copy of the minutes of the following committee meetings:

i) ***The General Purpose & Planning Committee held on 13th December 2016.***

ii) ***The Policy & Finance Committee held on 4th January 2017 (Draft).***

iii) ***The General Purposes & Planning Committee held on 10th January 2017. (Draft)***

c) **<u>Matters Arising from Those Minutes</u>:**

i) Min. 214/16(a) – Congo Links:

The Clerk submitted, for information, e-mail correspondence from Norbert Mbu-Mputo, requesting a letter of support. It was queried whether the Town Council should also contact the Ghanaian Embassy to ask if it would consider paying for the refurbishment of the grave of a young person from the former Gold Coast.

Resolved to send a general letter of support to Norbert.

ii) Min. 272/16(b) – Colwyn Bay FC visit:

The Clerk submitted a fixture list and members were asked to show by raising their hands if they would be interested in attending a future home game.

Resolved that the Clerk circulates details by e-mail to those members who have expressed an interest to decide on an alternative fixture for the visit and consider how the 8 places will be allocated.

d) Resolved to endorse the recommendations of the Committees, as detailed in the following Minutes:

i) Min. 298/16(d) – Christmas Bonus for Staff: It was noted that the proposal had since been withdrawn, following discussion with staff members.

ii) Min.300/16 – CCTV Upgrade:

Resolved to agree a contribution of £30,000 over two years (£15,000 per annum) to upgrade all of the CCTV cameras in the Bay of Colwyn area to digital.

iii) Min. 303/16(b) – Small Grants:

Resolved to approve payment of two small grants, as detailed in Schedule 'B' to the minutes.

iv) Min. 307/16(a) – Queens Gardens / Commonwealth Day:

The Clerk gave a brief report on the recommendations from the Working Group, to include the proposed format for the event and a list of invitees.

Resolved to endorse the proposals of the Working Group and to inform the Commonwealth Secretariat in London of the intention to participate.

v) Min. 309/16(c) – Rhos Point re-development:

Resolved to send a letter of support for the request made by Colwyn

Bay Heritage Group for greater protection for the former Pier Toll House during any redevelopment of the site.

vi) ***Resolved to note the resolutions of the Committees, as detailed in the Minutes.***

95/11 <u>Annual Estimates</u>:

a) The Clerk tabled a recommendation by the Policy & Finance Committee to retain a budget of £35,000 for Large Grants for 2017/18, approve grants totalling £27,570 and note that two applications have been deferred, pending receipt of more detailed information.
Resolved to endorse the recommendations of the Policy & Finance Committee.

b) Members were then asked to consider and approve the Annual Estimates for 2017/18, as submitted by the Policy & Finance Committee.

Resolved to approve the Annual Estimates for 2017/18, as detailed in Schedule 'A' attached.

c) Members were then requested to note the two options discussed by the Committee in relation to the amount of precept to be requested for 2017/18 and consider the recommendation, as detailed in Minute 299/16 of the Policy & Finance meeting held on 4th January, to approve a standstill precept request of £37.00 per Band D property (£413,650). This would require the use of £62,150 from reserves to balance the budget and would result in a forecast general reserve of around £27,700 more than the Council's policy on minimum levels of reserves requires (25% of precept), to respond to any unforeseen expenditure during the year.

It was proposed and seconded that the Council should consider increasing the precept request slightly to £419,250 (equivalent to £37.50 per Band D property) to assist with the additional expenditure on upgrading the CCTV cameras across the town over the next two years and soften the impact a lager increase may have if left until next year. This would result in an additional £5,600 being added to the general reserves in case of need during 2017/18, or towards reducing the anticipated budget deficit in 2018/19.

Resolved by a majority vote to increase the precept request to £419,250 for 2017/18, equivalent to £37.50 for a Band D property.

96/11 <u>Room Hire Charges</u>:

Members were then asked to consider whether to apply any increase in hire charges for 2017/18.

Resolved not to increase room hire charges from their current levels for

financial year 2017/18.

97/11 <u>Timetable of Meetings</u>:

The Clerk submitted, for consideration, the draft timetable of meetings for the 2017/18 municipal year (for ratification at the Annual Meeting in May 2017)

Resolved to receive and note the draft timetable of meetings..

98/11 <u>Colwyn Victoria Pier</u>:

The Clerk and Cllr D Griffiths gave a brief verbal update on progress by CVPT with its proposals to redevelop the Pier and Pavilion, reporting that a meeting had been held with officers from CCBC and Cadw before Christmas and an outline business case / visioning statement had been requested from the Trust as soon as possible (ideally within the next month). This is currently being worked on. Members were asked to consider an enquiry from the Trust as to whether the £15,000 funding approved by the Town Council towards the estimated £45,000 cost of a detailed business plan (which had been approved in October 2015, subject to 100% match-funding) could be released in tranches, on production of evidence of an equivalent amount of match funding from other sources.

A discussion ensued about this request, with members being of mixed opinion as to whether or not this should or could be permitted. The Clerk was asked to read out the wording of the October 2015 resolution, which she did. The Council agreed that this did not specifically permit stage payments and would therefore need to be reconsidered and an amended resolution agreed, if stage payments were now to be permitted. The Council's standing order (no. 11) regarding the six month rule would apply and a written notice requesting that this be added to the next Council agenda, containing the names of four councillors, would be required to enable a further debate and decision to be made on this request.

The meeting closed at 7.45 p.m.

…….. Chairman